



Canllaw Ymarfer Gogledd Cymru:

Cefnogi Plant, Cefnogi Rhieni gyda phroblemau iechyd
meddwl difrifol
a / neu sy'n camddefnyddio sylweddau

Fframwaith ar gyfer Diogelu Plant

1. Rhagarweiniad

- 1.1 Nod cyffredinol y canllaw ymarfer hwn yw sicrhau bod plant, yn cynnwys babanod heb eu geni, rhieni sy'n profi salwch meddwl a/neu'n camddefnyddio sylweddau yn cael cymorth, diogelu ac amddiffyniad priodol.
- 1.2 Mae gan bob asiantaeth gyfrifoldeb ar y cyd i ddiogelu ac amddiffyn plant. Mae hyn yn gofyn bod gwasanaethau aml-asiantaeth yn cyfathrebu ac yn cydlynu'n effeithiol â phlant a'u teuluoedd ar lefelau strategol a gweithredol. Gall hyn gynnwys Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion a Phlant, Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau, Iechyd, Addysg, yr Heddlu, Y Gwasanaeth Prawf a'r Sector Gwirfoddol. Mae'r canllaw ymarfer hwn yn darparu fframwaith ar gyfer gweithio ar y cyd i sicrhau bod plant sy'n byw gydag oedolion sy'n profi salwch meddwl a/neu'n camddefnyddio sylweddau yn cael eu diogelu a'u cefnogi'n ddigonol o fewn Rhanbarth Gogledd Cymru.
- 1.3 Mae'r canllaw ymarfer wedi'i fwriadu'n benodol i'r holl weithwyr proffesiynol ac aelodau staff sy'n gweithio mewn Gwasanaethau Iechyd Meddwl Oedolion, Gwasanaethau Plant, Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau a'r holl Weithwyr Proffesiynol Iechyd. Mae'n cydymffurfio â gofynion [Y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014](#) a'r [Canllawiau Statudol Diogelu](#) perthnasol, [Mesur Iechyd Meddwl \(Cymru\) 2010](#), [Deddf Iechyd Meddwl 1983 \(a Diwygiadau 2007\)](#) a [Gweithdrefnau Diogelu Cymru 2019](#).
- 1.4 Mae angen i bob asiantaeth sicrhau eu bod yn gweithio gyda'i gilydd mewn partneriaeth gyda rhieni ac er budd pennaf plant. Cydnabyddir efallai y bydd gwrthdaro buddiannau a ganfyddir ar adegau rhwng anghenion y plentyn (plant) ac anghenion y rhieni sy'n profi salwch meddwl a/neu'n camddefnyddio sylweddau. Fodd bynnag, os yw plentyn mewn perygl o gael ei gam-drin neu'n dioddef, neu'n debygol o ddioddef niwed sylweddol, mae lles y plentyn yn hollbwysig ac mae'n rhaid dilyn [Gweithdrefnau Diogelu Cymru 2019](#).
- 1.5 Dylai pob asiantaeth fod yn ymwybodol bod y [Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014](#) wedi cyflwyno dyletswyddau statudol newydd ar 'bartneriaid perthnasol' i adrodd ar blant ac oedolion sydd mewn perygl, ynghyd â diffiniadau newydd o beth a olygir gan blentyn ac oedolyn mewn perygl, ynghyd â chategoriâu camdriniaeth ac esgeulustod. Pan fo plentyn yn cael ei adrodd dan [Adran 130 o'r Ddeddf \(Dyletswydd i adrodd am blant sydd mewn perygl\)](#), mae'n rhaid i'r awdurdod lleol ystyried p'un ai bod sail dros gynnal ymchwiliad dan [Adran 47 o'r Ddeddf Plant 1989](#).
- 1.6 Dylid deall nad yw pob rhiant sy'n profi salwch meddwl a/neu sy'n camddefnyddio sylweddau yn cam-drin neu'n esgeuluso. Gall llawer o rieni sydd â salwch meddwl a/neu sy'n camddefnyddio sylweddau ddarparu gofal diogel ac effeithiol i'w plant os oes ganddynt rwydweithiau cymorth cadarnhaol da ac os allent gael mynediad at gyngor a chymorth priodol yn y gymuned.
- 1.7 Mae'r [Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014](#) yn rhoi pwyslais cryf ar y ddyletswydd i weithio mewn partneriaeth gyda rhieni a

phlant; i ddarparu cymorth cynnar, cyngor a strategaethau atal sy'n adeiladu ar gryfderau pobl ac yn mynd i'r afael â'r hyn sy'n bwysig iddynt.

- 1.8 Dylid darllen y ddogfen hon ar y cyd â fframwaith cyfreithiol y [Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru \(2014\)](#), [Gweithdrefnau Diogelu Cymru \(2019\)](#), y [Mesur Iechyd Meddwl \(Cymru\) \(2010\)](#), y [Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014 a'i rhyng-gysylltiad â Ddeddfwriaeth Iechyd Meddwl yng Nghymru](#) a'r [Ddeddf Hawliau Dynol \(1998\)](#), polisiau gweithredol perthnasol sy'n ymwneud â gwasanaethau plant, iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau ac yn benodol ar y cyd â'r [Safonau Diogelu Plant ar gyfer Iechyd Meddwl Oedolion \(2015\)](#) a gyhoeddwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru.

2. Pwrpas y Canllaw Ymarfer

- 2.1 Pwrpas y Canllaw Ymarfer yw amlinellu cyfrifoldebau asiantaethau ac ymarferwyr ar gyfer gweithio ar y cyd a rhannu gwybodaeth pan fo pryderon bod salwch meddwl a/neu broblemau camddefnyddio sylweddau rhiant yn cyfaddawdu ar ei allu i fagu plant -gan olygu y bydd ei blant (neu ei faban heb ei eni) angen gofal a chefnogaeth a/neu mewn perygl o niwed. Mae wedi'i seilio ar yr egwyddor y bydd cydweithrediad aml-asiantaeth a chyfathrebu yn arwain at asesiadau gwybodus, cynllunio effeithiol a chanlyniadau gwell i blant a theuluoedd.

- 2.2 Prif neges y Canllaw Ymarfer yw bod rhaid i bob asiantaeth iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau sy'n darparu gwasanaethau i oedolion â chyfrifoldebau rhieni ac sy'n gofalu am blant, ystyried amddiffyn a diogelu lles plant fel yr ystyriaeth bwysicaf.

- 2.3 Y nod yw hwyluso ymatebion a gydlynwyd gan Wasanaethau Plant a Theuluoedd, Gwasanaethau Iechyd Meddwl, Gwasanaethau Gofal Cychwynnol, Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau ac Asiantaethau Partner. Dylai'r ymateb hwn gynnwys asesiadau ar y cyd o deuluoedd lle mae yna bryderon amddiffyn plant a lle mae gan y rhiant broblemau sylweddol o ran ei iechyd meddwl a/neu gamddefnyddio sylweddau. Cynnal cyfathrebu effeithiol rhwng Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, Gwasanaethau Iechyd Meddwl, Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau, Gwasanaethau Gofal Cychwynnol ac Asiantaethau Partner.

Hwyluso adnabod y plant hynny sy'n profi, neu sydd efallai mewn perygl o brofi, niwed yn gynnar fel y diffiniwyd yn y [Gweithdrefnau Diogelu Cymru](#) a'r canllaw statudol fel y gellir cynnig cefnogaeth i atal y risg rhag cynyddu.

3. Cwmpas y Canllaw Ymarfer.

- 3.1 Ar gyfer pwrpas y canllaw ymarfer hwn, caiff oedolyn â salwch meddwl ei ddiffinio fel:
- Unigolyn sy'n profi salwch meddwl ysgafn i gymedrol fel anhwylderau pryder, iselder ysgafn i gymedrol, anawsterau seicogymdeithasol, ymddygiadol neu

emosiynol neu nam ar y cof.

- Unigolyn sy'n profi salwch meddwl difrifol fel sgitsoffrenia neu seicosis arall (parhaus neu dros dro), anhwylder deubegynol, anhwylder affeithiol difrifol, anhwylder bwyta difrifol, dementia neu anhwylder personoliaeth.

3.2 Ar gyfer pwrpas y protocol hwn, caiff oedolyn â phroblemau camddefnyddio sylweddau problematig ei ddiffinio fel:

- Oedolyn sydd, yn dilyn asesiad, yn cael ei ystyried fel un sydd â dibyniaeth ac, o ganlyniad i'r uchod, yn profi anabledd sylweddol sy'n ei atal yn sylweddol rhag byw yn ddiogel yn y gymuned heb gymorth.
- Oedolyn y mae ei ddefnydd o sylweddau yn caotig; defnydd gormodol o sylweddau dros gyfnod hir o amser, gyda'r defnyddiwr yn ei gweld hi'n anodd iawn byw heb y sylwedd neu'n profi problemau wrth geisio rhoi'r gorau neu reoli ei ddefnydd. Efallai na fydd yr unigolion hyn yn ymddangos fel eu bod yn poeni neu'n ymwybodol o beryglon eu defnydd.

4. Rhannu Gwybodaeth a Chyfrinachedd

4.1 [Mae'r Ddeddf Plant 2004](#), [adran 28](#), yn rhoi dyletswydd statudol ar Awdurdodau Lleol, yr Heddlu, Y Gwasanaeth Prawf, cyrff y GIG, Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuentid, Carchardai, Cyfarwyddwyr Canolfan Hyfforddiant, Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig a gwasanaethau a gontractwyd, i wneud trefniadau i sicrhau eu bod yn cynnal eu swyddogaethau presennol mewn ffordd sy'n ystyried yr angen i ddiogelu a hyrwyddo lles plant.

4.2 Mae trefniadau partneriaeth yn cael eu cryfhau ymhellach o dan Ran 9 o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. [Mae'r Codau a Chanllawiau: Canllawiau Statudol Rhan 9 \(Trefniadau Partneriaeth\)](#) yn nodi bod:

“Rhaid i gorff partneriaeth (aelod sefydliad) rannu gwybodaeth ag unrhyw un o'r cyrff partneriaeth eraill (aelod sefydliad) o fewn y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol at ddibenion cyflawni swyddogaethau'r trefniant partneriaeth. Fodd bynnag, nid yw'r ddyletswydd hon yn berthnasol os yw'n anghydnaws ag unrhyw un o ddyletswyddau eraill y corff, gan gynnwys ei ddyletswyddau o dan y [Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol 2018](#), y [Deddf Diogelu Data 2018](#) a'r [Ddeddf Hawliau Dynol 1998](#).

Rhaid cydymffurfio ag egwyddorion 'Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru' wrth rannu unrhyw wybodaeth y gellir ei ddefnyddio i adnabod unigolyn. Mae pob Bwrdd Iechyd Lleol ac Awdurdod Lleol yng Nghymru yn llofnodwyr i [Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru](#)”.

4.3 Bydd gweithwyr proffesiynol a staff sy'n darparu gwasanaethau i oedolion a phlant yn bryderus am yr angen i gydbwysu eu dyletswydd gyffredinol i'w defnyddwyr gwasanaeth gyda'u dyletswyddau i amddiffyn plant rhag niwed.

4.4 Mae cyfrinachedd yn ffactor bwysig i alluogi defnyddwyr gwasanaeth i

ymgysylltu'n hyderus ac yn onest a dylai pob asiantaeth gefnogi'r gofyniad i gadw cyfrinachedd cyn belled â phosibl.

- 4.5 Ni ddylid rhannu gwybodaeth bersonol a roddir gan ddefnyddiwr gwasanaeth gydag eraill heb gydsyniad, oni bai bod diogelwch y defnyddiwr gwasanaeth neu'r unigolyn agored i niwed arall mewn perygl fel arall.
- 4.6 Egwyddor gyffredinol codau ymddygiad proffesiynol a moesegol, ac mewn deddfwriaeth hawliau dynol a diogelu data. Mae hyn yn cydnabod hawl yr unigolyn i breifatrwydd ac hefyd yn galluogi i ddatgelu a rhannu gwybodaeth o dan amgylchiadau priodol penodol, fel os oes pryderon o ran lles plentyn.
- 4.7 Mae ymchwil a phrofiad o adolygiadau ymarfer plant wedi dangos tro ar ôl tro, er mwyn diogelu plentyn rhag camdriniaeth a/neu esgeulustod, mae'n rhaid i weithwyr proffesiynol a staff rannu gwybodaeth yn brydlon am iechyd a datblygiad ac amlygiad y plentyn i niwed difrifol. Mae'n hanfodol bod gwybodaeth yn cael ei rannu am riant y mae ei anghenion yn gallu cyfaddawdu ar ei allu i ofalu am y plentyn yn ddigonol, a'r rhai a all beri risg o niwed.
- 4.8 Y prif ddarpariaethau ar ddatgelu gwybodaeth ar gyfer gweithwyr proffesiynol ac ymarferwyr yw:
- Y dyletswydd cyfrinachedd gyffredin;
 - [Deddf Hawliau Dynol 1998](#)
 - [Deddf Diogelu Data 2018](#)
 - [Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol 2018](#)
 - [Deddf Plant 1989](#)
 - [Deddf Plant 2004](#)
 - [Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998](#)
 - [Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014](#)
 - [Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru](#)
- 4.9 [Mae Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl Cyfrol 5 – Ymdrin ag Achosion Unigol](#) yn nodi, o dan amgylchiadau eithriadol, gellir rhannu gwybodaeth bersonol yn gyfreithiol heb ganiatâd, lle mae gofyniad cyfreithiol i wneud hynny, neu os yw'r ymarferydd yn ystyried ei fod er budd y cyhoedd. Un o'r amgylchiadau eithriadol yw ar gyfer atal camdriniaeth neu niwed difrifol i eraill.
- 4.10 Nid yw'r gyfraith gyffredin a chyfyngiadau statudol yn atal rhannu gwybodaeth bersonol â gweithwyr proffesiynol ac ymarferwyr eraill cyn belled â bod:
- Y defnyddiwr gwasanaeth a/neu'r rhai sy'n debygol o gael eu heffeithio arnynt yn rhoi eu cydsyniad; neu
 - Os yw budd y cyhoedd i ddiogelu lles y plentyn yn bwysicach na'r angen i gadw'r wybodaeth yn gyfrinachol; neu

- Os oes angen datgelu o dan orchymyn llys neu rwymedigaeth cyfreithiol arall.

4.11 Felly mae'r ddeddfwriaeth yn cydnabod y gall datgelu gwybodaeth gyfrinachol heb ganiatâd neu orchymyn llys, gael ei gyfiawnhau er budd y cyhoedd i atal niwed i eraill. Mae'n arfer da pan fo pryderon am ddiogelwch plentyn yn gofyn i weithiwr proffesiynol neu staff rannu gwybodaeth heb ganiatâd, dylai'r gweithiwr hwnnw ddweud wrth yr unigolyn ei fod yn bwriadu gwneud hynny, oni bai y byddai'n rhoi'r plentyn neu eraill mewn mwy o berygl o niwed.

4.12 Mae'n arfer da i weithiwr proffesiynol neu aelod o staff sy'n gofyn am wybodaeth gan asiantaeth arall i egluro:

- Pa fath o wybodaeth sydd ei angen arnynt;
- Pam ei fod ei angen arnynt;
- Beth fyddant yn ei wneud gyda'r wybodaeth, a;
- Pwy arall fydd angen cael gwybod os oes pryderon parhaus o ran y plentyn.

4.13 Dan amgylchiadau lle ystyrir fod y plentyn mewn perygl o gamdriniaeth neu esgeulustod, efallai bydd gofyn i weithwyr proffesiynol ac aelodau staff ddarparu gwybodaeth unai ar lafar neu mewn adroddiad ysgrifenedig, at ddibenion;

- Asesiad cymesur neu arbenigol o amgylchiadau'r plentyn
- Cwblhau ymholiadau Adran 47
- Rhoi gwybodaeth a chynghor i rieni
- Darparu gwasanaethau ataliol ac ymyrraeth wedi'i dargedu i blentyn a'i deulu
- Hysbysu gwneud penderfyniadau mewn Cynhadledd Amddiffyn Plant
- Cwblhau adroddiadau Llys

Sylwer nad yw hon yn rhestr gynhwysfawr.

4.14 Dylai'r gweithiwr proffesiynol neu'r aelod o staff y mae'r cais am wybodaeth yn cael ei wneud iddo ystyried:

- P'un ai bod risg posibl neu risg tebygol o gam-drin neu esgeulustod i blentyn;
- P'un ai bod ganddynt wybodaeth berthnasol i'w gyfrannu;
- P'un ai bod y wybodaeth yn gyfrinachol, neu'n gyhoeddus, neu'n gallu cael ei ddarparu'n well gan asiantaeth arall
- Pa wybodaeth y mae'r defnyddiwr gwasanaeth wedi rhoi'r hawl i'w rannu;
- Faint o'r wybodaeth sydd angen cael ei rannu er mwyn diogelu a lleihau'r perygl o niwed i'r plentyn/plant.
- Bod gweithwyr proffesiynol/ aelodau staff yn cael cefnogaeth gan arweinwyr diogelu o fewn eu sefydliad yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Cymru.

5. Safonau ar gyfer gweithwyr proffesiynol ac aelodau staff mewn Gwasanaethau Iechyd Meddwl, Gwasanaethau Plant, Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau ac asiantaethau eraill

Ar gyfer babanod heb eu geni, gweler Protocol Cyn-Geni Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru am ganllawiau o ran asesiadau a rheoli cyn-geni.

- 5.1 Dylai gweithwyr proffesiynol a staff mewn gwasanaethau iechyd meddwl oedolion, gwasanaethau camddefnyddio sylweddau ac asiantaethau eraill fod yn ymwybodol o ddefnyddwyr gwasanaeth sy'n rieni a/neu'n feichiog, a/neu sydd â chyfrifoldeb rhieni a/neu sydd â phlant sy'n byw gyda nhw.
- 5.2 Dylai gweithwyr proffesiynol a staff mewn gwasanaethau plant flaenoriaethu gwneud eu hunain yn ymwybodol o broblemau iechyd meddwl a/neu broblemau camddefnyddio sylweddau rhieni i fod yn sicr o asesiad gwybodus a chanfod p'un ai bod y rhieni y maent yn gweithio gyda nhw yn hysbys neu os fyddant yn elwa o wasanaethau iechyd meddwl a/neu wasanaethau camddefnyddio sylweddau.
- 5.3 Gall gweithwyr proffesiynol gael mynediad at ddysgu ar-lein ar Gofal Cymdeithasol Cymru - Hyfforddiant Gweithdrefnau Diogelu Cymru; [Gofal Cymdeithasol Cymru – Hyfforddiant Gweithdrefnau Diogelu Cymru](#)

Gall gweithwyr proffesiynol gael mynediad at hyfforddiant mewnol o fewn eu sefydliad hefyd.

- Hwyluso adnabod plant mewn perygl o niwed yn gynnar a datblygu sgiliau i ymgymryd ag asesiadau aml-asiantaeth a hyrwyddo cydweithio a chyfathrebu effeithiol rhwng asiantaethau.
- Gwella ymwybyddiaeth staff o faterion iechyd meddwl ac amddiffyn plant.

6. Rôl a chyfrifoldebau gwasanaethau iechyd meddwl a/neu gwasanaethau camddefnyddio sylweddau mewn diogelu a hyrwyddo lles plant - Dylid deall nad yw pob rhiant sydd â salwch meddwl a/neu sy'n camddefnyddio sylweddau yn cam-drin neu'n esgeuluso.

Ar gyfer babanod heb eu geni, gweler Protocol Cyn-Geni Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru am ganllawiau o ran asesiadau a rheoli cyn-geni.

- 6.1 Wrth weithio gyda rhieni/gofalwyr, bydd angen i wasanaethau iechyd meddwl a/neu gwasanaethau camddefnyddio sylweddau o fewn y rhanbarth sicrhau bod eu defnyddwyr gwasanaeth yn ymwybodol y bydd unrhyw bryderon diogelu / amddiffyn plant a nodwyd mewn perthynas â phlant yn cael eu rhannu gyda'r asiantaethau priodol. Gellir hefyd archwilio y gallent gael mynediad at ddarpariaeth gofal a chymorth fel mecanwaith cymorth cynnar.

**Wrth weithio gyda rhieni/gofalwyr, bydd angen i Wasanaethau Iechyd Meddwl a/neu Wasanaethau Defnyddio Sylweddau yn y rhanbarth sicrhau bod unrhyw bryderon diogelu / amddiffyn plant yn cael eu rhannu gyda'r gwasanaethau priodol. Gellir archwilio darpariaethau Gofal a Chymorth fel mecanwaith cymorth cynnar.*

- 6.2 Fel rhan o'r holl asesiadau iechyd meddwl a/neu asesiadau camddefnyddio sylweddau, ym mhob cyfnod o ofal, p'un ai fel claf mewnol neu yn y gymuned,

bydd y gweithiwr proffesiynol yn:

- Cofnodi/ cadarnhau yn rheolaidd os yw'r oedolyn sy'n cael ei asesu yn rhiant neu gyda rôl gofalu sylweddol ar gyfer y plentyn.
- Sefydlu a chofnodi manylion am y plant, y trefniadau magu plant a pha asiantaethau sy'n rhan ar hyn o bryd.

6.3 Yn dilyn asesiad, dylai gweithwyr proffesiynol hysbysu gwasanaethau bydwreigiaeth, ymwelwyr iechyd, iechyd meddwl amenedigol neu'r gwasanaeth nyrsio ysgol fel mater o drefn, fel bo'n briodol. Os nad yw'r atgyfeiriad cychwynnol yn dod gan Feddyg Teulu, dylid rhoi gwybod am unrhyw bryderon a all effeithio ar allu'r oedolyn i ofalu am ei blant i'r gwasanaethau gofal sylfaenol. Bydd angen ailasesu ar bob cyswllt pellach.

Mae [Canllawiau Llywodraeth Cymru ar y Fframwaith Gwasanaethau Iechyd Meddwl a Chamddefnyddio Sylweddau sy'n Cyd-ddigwydd](#) wedi cael ei ddylunio i hysbysu a dylanwadu ar ddarparu arfer integredig ac ar y cyd wrth ddarparu gwasanaethau i oedolion, plant a phobl ifanc.

6.4 Lle mae gweithwyr proffesiynol yn amau fod plentyn neu faban heb ei eni yn profi neu mewn perygl o brofi camdriniaeth neu esgeulustod, mae'n rhaid dilyn y broses gyfeirio yn unol â [Gweithdrefnau Diogelu Cymru](#). Ni ddylid oedi gwneud [atgyfeiriad/adroddiad Plentyn mewn Perygl](#) oherwydd nad oes diagnosis wedi'i wneud eto mewn perthynas ag iechyd meddwl yr oedolyn.

6.5 Os oes gan weithwyr proffesiynol neu aelodau staff gwasanaethau iechyd meddwl / gwasanaethau camddefnyddio sylweddau bryderon o ran lles plentyn y defnyddiwr gwasanaeth, mewn perthynas â'u diogelwch, eu hiechyd a/neu eu haddysg a/neu eu datblygiad, dylent ofyn am gydsyniad rhieni er mwyn gwneud adroddiad (atgyfeiriad) at yr asiantaeth briodol. Os na cheir cydsyniad, gall gweithwyr proffesiynol / aelodau staff dal gyflwyno adroddiad (atgyfeiriad) ond byddai hwn yn adroddiad (atgyfeiriad) plentyn mewn perygl.

6.6 Mae'n arfer da i gael cydsyniad rhieni, cyn belled â na fydd gofyn am gydsyniad rhieni yn debygol o gynyddu'r perygl o niwed i blentyn. Wrth ystyried gwneud adroddiad (atgyfeiriad), dylai gweithwyr proffesiynol asiantaeth ac aelodau staff ofyn y cwestiynau canlynol iddynt eu hunain:

- Pa wybodaeth, cefnogaeth a chyngor rhianta sydd ei angen er mwyn atal y perygl o niwed i'r plentyn?
- Pa effaith y mae problemau iechyd meddwl y rhiant yn ei gael/ yn debygol o'i gael ar les y plentyn?
- Pa mor agored i niwed yw'r plentyn?
- Pa mor ddifrifol yw'r pryder/problem?
- A yw'r pryderon/problemau yn hirdymor neu'r rhan o batrwm parhaus?
- Beth sy'n debygol o ddigwydd os yw'r camau gweithredu yn cael eu hoedi neu ddim yn cael eu cymryd?
- Pa ffactorau/cryfderau diogelu sydd ar waith?

- Pa mor agored i niwed yw'r oedolyn?
 - Beth yw profiadau bywyd y plentyn?
 - Pa gamau sydd eisoes wedi'u cymryd i geisio mynd i'r afael ag unrhyw bryderon?
- 6.7 Mae'n rhaid i bob gweithiwr proffesiynol a staff gwasanaethau iechyd meddwl oedolion/ camddefnyddio sylweddau wneud adroddiad (atgyfeiriad) at y Gwasanaethau Plant yn unol â'r trefniadau lleol yn eu hardal yn y rhanbarth, yn unol â'r Gweithdrefnau Diogelu Cymru.
- 6.8 Dylai'r gweithiwr proffesiynol asiantaeth neu'r aelod staff ddarparu [Ffurflen Atgyfeirio](#) sy'n rhoi gwybodaeth am amgylchiadau'r teulu neu'r aelwyd a'r pryderon a nodwyd.
- 6.9 Wrth ystyried gwneud adroddiad (atgyfeiriad), dylech ofyn os oes amgylchiadau lle byddai atgyfeiriad yn atal niwed a lle gall ymyrraeth gynnar neu ataliaeth wedi'i dargedu atal y perygl rhag cynyddu. Mae angen cydsyniad rhieni o dan yr amgylchiadau hyn. Wrth ystyried gwneud adroddiad (atgyfeiriad), dylai'r gweithiwr proffesiynol asiantaeth neu'r aelod staff ofyn i'w hunain os byddai atgyfeiriad yn atal niwed a lle gall ymyrraeth gynnar neu ataliaeth wedi'i dargedu atal y perygl rhag cynyddu. Mae angen cydsyniad rhieni o dan yr amgylchiadau hyn.
- 6.10 Dylai pob adroddiad (atgyfeiriad) ar lafar gael eu cyfeirio at yr Awdurdod Lleol perthnasol lle mae'r plentyn yn byw ynddo a dylid ei gadarnhau yn ysgrifenedig o fewn 24 awr. Sylwer bod gan bob Awdurdod Lleol dîm gwahanol i brosesu adroddiadau. Cyfeiriwch at Atodiad 1.
- 6.11 Yn ychwanegol, mae'n bwysig bod gweithwyr proffesiynol a staff yn gwahaniaethu rhwng materion o dystiolaeth a'r tebygrwydd o niwed. Mae'n aml yn anodd cael tystiolaeth amlwg i brofi pryderon gweithiwr proffesiynol / staff, ac mae angen i weithwyr proffesiynol ystyried yr holl bryderon diogelu. Dylid cael sgysiau gyda'r gweithwyr proffesiynol sy'n rhan i ganfod y lefel o niwed, ond ni ddylid cymryd hyn fel arwydd nad yw'r sefyllfa yn debygol o fod yn ddifrifol.

Wrth ystyried 'niwed', dylai fod wedi'i seilio ar y diffiniad cyfreithiol ([Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014](#), [Deddf Plant 1989](#) a [Gweithdrefnau Diogelu Cymru](#)) a phryder proffesiynol (barn). Os oes gan asiantaethau'r pryderon hyn o ran 'niwed' mae'n rhaid i'r cyfeiriad fod yn Adroddiad Plentyn mewn Perygl.

- 6.12 Dylai pob gweithiwr proffesiynol ac aelodau staff gwasanaethau iechyd meddwl a/neu camddefnyddio sylweddau helpu gweithwyr proffesiynol y gwasanaethau cymdeithasol i ymgymryd ag asesiadau. Gwneir hyn drwy gyfrannu gwybodaeth perthnasol o ddeunyddiau asesu a drwy fynychu ac adrodd i Gynadleddau Amddiffyn Plant a chyfarfodydd perthnasol. Bydd hyn yn cael ei wneud yn unol â gofynion cyfrinachedd a rhannu gwybodaeth.
- 7. Rôl a chyfrifoldebau'r gwasanaethau cymdeithasol o ran diogelu a hyrwyddo lles plant**

Ar gyfer babanod heb eu geni, gweler Protocol Cyn-Geni Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru am ganllawiau o ran asesiadau a rheoli cyn-geni.

- 7.1 Pan fydd yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol yn derbyn adroddiad (atgyfeiriad) am blentyn rhiant sydd â salwch meddwl a/neu problemau camddefnyddio sylweddau, bydd penderfyniad yn cael ei wneud am dderbyn yr atgyfeiriad o fewn 24 awr a bydd yr atgyfeiriwr yn cael gwybod o fewn 7 niwrnod i'r canlyniad. Bydd yr asesiad yn cynnwys asesiad risg rhagarweiniol wedi'i seilio ar ddadansoddi'r cryfderau a'r nodweddion diamddiffyn a nodwyd. Lle mae sail i bryderu bod plentyn mewn perygl o niwed, bydd Trafodaeth Strategaeth / Cyfarfod Strategaeth yn cael ei gynnal i ystyried yr angen am ymholiadau amddiffyn plant yn unol â'r [Ddeddf Plant 1989 A47](#).
- 7.2 Bydd bob gweithiwr proffesiynol asiantaeth a staff, pan fyddant yn cael gwybod am asesiad, yn casglu a chyfrannu gwybodaeth berthnasol am y plentyn a'r rhieni.

Efallai bydd asiantaethau eraill sy'n gweithio gyda plant yn gallu darparu gwybodaeth am:

- Oed a champau datblygiad corfforol, cymdeithasol ac emosiynol y plentyn;
 - Anghenion addysgiadol y plentyn;
 - Anghenion iechyd a gofal iechyd y plentyn;
 - Yr effaith emosiynol y mae newidiadau aml a/neu nad oes modd eu rhagweld yn hwyliau ac ymddygiad yr oedolyn yn ei gael ar y plentyn;
 - Canfyddiad y plentyn o broblemau iechyd meddwl a/ neu gamddefnyddio sylweddau'r rhiant; mae'r dull hwn sy'n canolbwyntio ar y plentyn yn hanfodol ar gyfer diogelu a hyrwyddo lles pob plentyn. Mae dull sy'n canolbwyntio ar y plentyn yn golygu cadw'r plentyn mewn cof wrth wneud penderfyniadau am ei fywyd a gweithio mewn partneriaeth ag ef a'i deulu. Dylai unrhyw un sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc weld a siarad â'r plentyn; gwranddo ar yr hyn sydd ganddo i'w ddweud; cymryd ei farn o ddifri; a gweithio ar y cyd gydag ef a'i deulu wrth benderfynu ar sut i gefnogi ei anghenion. Dylid rhoi darpariaeth arbennig ar waith i gefnogi deialog gyda phlant sydd ag anawsterau cyfathrebu, plant ar eu pen eu hunain, ffoaduriaid a phlant sy'n ddioddefwyr o gaethwasiaeth fodern a/neu fasnachu.
 - Cryfderau a rhwystrau
 - Asesiad iechyd cyn-geni - prosesau mewnol
- 7.3 Yn dilyn cwblhau'r asesiad, bydd penderfyniad yn cael ei wneud o ran os yw'r plentyn yn blentyn sydd angen gofal a chymorth, ac os felly, bydd Cynllun Gofal a Chymorth yn cael ei lunio a'i adolygu. Efallai bydd hyn yn golygu bod angen gwneud asesiadau cymesur arbenigol neu fanwl pellach. Mae'n bwysig bod gwasanaethau plant ac iechyd meddwl a/neu wasanaethau camddefnyddio sylweddau ynghyd ag asiantaethau eraill sy'n rhan o ofal y plentyn a'r teulu yn cael cyd-berchnogaeth o'r Plentyn sydd Angen Cynllun Gofal a Chymorth.
- 7.4 Os bydd yr asesiad hwn yn nodi oedolyn, neu blentyn sydd angen Cynllun Gofal a Chymorth, dylid ei atgyfeirio at y gwasanaeth perthnasol.

- 7.5 Os yw plentyn yn cael ei ystyried fel un sydd mewn perygl o niwed, bydd ymholiadau Amddiffyn Plant Adran 47 yn cael eu cynnal a bydd asesiad cymesur yn cael ei gwblhau lle bydd penderfyniad yn cael ei wneud o ran os dylid galw Cynhadledd Amddiffyn Plant Gychwynnol.
- 7.6 Mae'n rhaid ymgymryd â Chynhadledd Amddiffyn Plant Gychwynnol o fewn 15 diwrnod gwaith o ddyddiad y Cyfarfod/ Trafodaeth Strategaeth Amddiffyn Plant, ac felly bydd gan asiantaethau amser cyfyngedig i baratoi a rhannu eu hadroddiad gyda'r teulu a'i anfon at Gadeirydd y Gynhadledd o fewn dau ddiwrnod gwaith cyn y Gynhadledd. Os bydd enw plentyn yn cael ei roi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant, bydd Cynllun Gofal a Chymorth yn cael ei wneud a bydd gofyn i asiantaethau sydd mewn cysylltiad â'r plentyn a/neu y rhieni fynychu cyfarfodydd Grŵp Craidd Amddiffyn Plant a Chynhadledd Adolygu Amddiffyn Plant.
- 7.7 Gan fod salwch meddwl a phroblemau camddefnyddio sylweddau yn gallu bod yn gymhleth iawn ac yn aml yn cynnwys cyflwr sy'n llithro'n ôl, mae'n hanfodol bod y penderfyniad hwn yn cael ei gyfleu i'r holl asiantaethau sy'n rhan pan fydd yr ymgysylltiad â'r Gwasanaethau Plant neu'r Gwasanaethau Iechyd Meddwl Oedolion neu'r Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau yn dod i ben. Mae'n bwysig sicrhau bod o leiaf un asiantaeth sy'n darparu gwasanaethau cyffredinol, fel iechyd ac addysg, yn cael cyswllt parhaus â'r plentyn a all barhau i fod yn wyladwrus o unrhyw arwyddion o anawsterau yn codi eto.
- Cyn cau achos dylid ystyried gwaith atal ail bwl.
- 7.8 Mae'n rhaid i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio mewn gwasanaethau iechyd meddwl oedolion a gwasanaethau camddefnyddio sylweddau sicrhau bod eu cynllun gofal yn cynnwys manylion penodol am faterion ac ymyriadau sydd eu hangen i helpu eu cleientiaid yn eu rolau rhianta. Mae'n rhaid rhoi ystyriaeth i rôl yr oedolyn fel rhiant ac effaith ei salwch meddwl a/neu broblemau camddefnyddio sylweddau ar ei allu i ofalu am blant ac felly i ofalu am ei blant ei hun. Dylai hyn hefyd ystyried dymuniadau a theimladau y plentyn o ran salwch ac ymddygiad y rhiant.
- 7.9 Wrth ystyried tynnu ymgysylltiad yn ôl, rhaid i ymarferwyr sicrhau bod y canlyniadau wedi'u bodloni a bod unrhyw gamau a gytunwyd arnynt wedi eu cyfleu i'r teulu. Dylai fod cynlluniau camu i lawr cadarn ar waith i sicrhau bod anghenion y plentyn yn cael eu bodloni ac y gellir cynnig cymorth parhaus drwy weithwyr proffesiynol, asiantaethau a Gwasanaethau Cyffredinol eraill.

8. Ffactorau Risg

- 8.1 Amcangyfrifir y bydd salwch neu anawsterau iechyd meddwl yn effeithio ar 1 o bob 4 person ar ryw bwynt yn eu bywydau. Bydd nifer o blant yn cael eu magu gan riant sydd, ar ryw bwynt, yn profi salwch meddwl. Salwch cymedrol neu dros gyfnod byr fydd y rhan fwyaf o'r rhieni hynny'n ei brofi, a bydd fel arfer yn cael ei drin gan eu Meddyg Teulu. Mae rhai plant yn byw

gyda rhiant sydd â chyflwr salwch meddwl hirdymor. Efallai bydd angen mwy o gefnogaeth yn yr achosion hyn.

8.2 Mae ymchwil diweddar wedi tynnu sylw at effaith niweidiol trawma yn ystod plentyndod a all arwain at anawsterau iechyd, addysgol, cymdeithasol a pherthnasau hirdymor. Mae salwch meddwl rhieni wedi cael ei nodi fel un o'r prif brofiadau sy'n achosi straen a all effeithio'n niweidiol ar yr amgylchedd y mae plant yn byw ynddo. Dengys ymchwil fod rhai o'r amgylcheddau teuluol mwyaf niweidiol i blant yn cynnwys cyfuniad o salwch meddwl rhieni, camddefnyddio alcohol/ sylweddau a cham-drin domestig.

8.3 Mae'r cysylltiadau cadarn rhwng amlygiad i brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod a bod yn agored i niwed i amrywiaeth o wahanol fathau o niwed, yn cynnwys defnyddio sylweddau, beichiogrwydd anfwriadol ymysg pobl ifanc yn eu harddegau, trais, salwch meddwl a phroblemau iechyd corfforol pan yn oedolyn, yn golygu bod plant y rhai ag effeithiwyd gan brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod mewn risg uwch o amlygu eu plant eu hunain i brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod. Yn aml iawn cyfeirir at hwn fel y 'cylich trais'. O ganlyniad, mae atal profiadau niweidiol yn ystod plentyndod mewn un cenhedlaeth, neu lleihau eu heffaith ar blant, yn gallu bod o fudd nid yn unig i'r unigolion hynny ond i genedlaethau'r dyfodol ar draws Cymru hefyd.

8.4 Mae'r angen i asiantaethau weithio gyda'i gilydd i sicrhau mesurau ataliol effeithiol a dargedwyd a datblygu i gynllunio ymyrraeth adferol a chynllunio i amddiffyn plant yn allweddol.

8.5 Dengys ymchwil hefyd bod y perygl o niwed i blant yn fwy tebygol o gynyddu os yw'r plant:

- Yn cael eu gwahanu'n barhaus oddi wrth rhiant sydd angen mynd i'r ysbyty
- Yn teimlo'n ansicr o'u perthynas gyda'r rhiant sydd â salwch meddwl
- Ddim yn cael eu gofalu amdanynt yn iawn
- Yn cael eu taro neu eu cam-drin (yn fwy tebygol os yw'r rhiant yn dioddef o broblemau alcohol neu gyffuriau neu gydag anawsterau personoliaeth)
- Yn gofalu am riant gwael, neu'n gofalu am frodyr a chwiorydd
- Yn cael ei fwlio neu ei bryfocio gan eraill
- Yn clywed pethau annifyr yn cael ei ddweud am eu rhiant (rhieni)
- Yn byw mewn tlodi, tai gwael neu wedi symud cyfeiriad cartref sawl gwaith
- Yn dyst i lawer o ddadleuon neu drais rhwng ei rieni
- Yn byw gyda gofaluwr sydd â hanes o beidio â chydymffurfio â'u triniaeth / meddyginiaeth

8.6 Mae ymchwil sy'n archwilio'r cysylltiadau rhwng gofal plant a salwch meddwl wedi dangos bod yr olaf yn ffactor sylweddol wrth ystyried diogelwch a lles y plentyn. Mae o leiaf yn debygol bod ansawdd y rhyngweithio rhwng y rhiant a'r plentyn yn cael ei effeithio arno. Mae angen rhoi ystyriaeth weithredol i gefnogi gallu'r oedolyn i fagu plant er mwyn bodloni anghenion ei blentyn (plant).

9. Cynllunio ac Adolygu Gofal a Thriniaeth

- 9.1 Yn y cyd-destun hwn, Cynllun Gofal a Thriniaeth y Gwasanaethau Iechyd Meddwl Oedolion yw'r 'cynllun a gytunwyd arno ar y cyd', sy'n cael ei ddarparu yn dilyn ystyried asesiad cyfannol o anghenion y teulu, lle mae anghenion y plentyn yn hollbwysig.
- 9.2 Yn dilyn y Cyfarfod Cynllunio ar y Cyd, bydd pob Cynllun Gofal a Thriniaeth yn nodi amcanion clir, cyfrifoldebau a dyddiadau adolygu.
- 9.3 Mae'n hanfodol bod trefniadau cyfathrebu a chydgyllunio da ar waith i gefnogi ymateb addas ac integredig gan wasanaethau. Dylid ymgynghori â theuluoedd a thimau bob tro ar newidiadau sylweddol i Gynlluniau Gofal a Chymorth ac ar y terfyn sydd wedi'i gynllunio ar gyfer achos. Dylai'r Gwasanaethau Plant gael gwybod bob tro os oes unrhyw newidiadau sylweddol mewn teulu a all effeithio ar fagwraeth, er enghraifft, os oes rhiant neu ofalwr yn gadael y cartref, gan adael y rhiant arall sy'n dioddef o salwch meddwl a/neu broblemau camddefnyddio sylweddau yn unig i ofalu am y plant.

Dylid rhoi ystyriaeth hefyd i'r rhai sydd yn y cartref, yn enwedig yn ystod ymweliadau â'r cartref - dylid nodi unrhyw aelodau ychwanegol o'r aelwyd, fel partneriaid y tadau a'r mamau, sy'n rhan o ofal y plant. Cyfeiriwch at yr Adolygiad Ymarfer Plant diweddar (Conwy 2019/1) lle'r oedd y ffactor risg allweddol yn yr achos hwn yn ddyd anhysbys. Nid oedd unrhyw weithiwr proffesiynol a fu'n ymweld â'r cartref yn ymwybodol o'r dyn. Nid oedd y plant wedi rhannu unrhyw wybodaeth yn ymwneud â'r dyn gyda'r ysgol, ac nid oedd y Fam wedi hysbysu unrhyw weithwyr proffesiynol ohono.

Yn yr un modd, rhaid i'r Gwasanaethau Plant gael gwybod bob tro y mae cynlluniau i ryddhau rhiant/gofalwr o ofal seiciatryddol aciwt.

- 9.4 Efallai bydd nifer o weithwyr proffesiynol o amrywiaeth o asiantaethau yn rhan, yn cynnwys Gofal Sylfaenol, Addysg, yr Heddlu, Y Gwasanaeth Prawf, Eiriolaeth a'r Sector Gwirfoddol. Mae'n rhaid rhoi ystyriaeth i ddiogelu cynrychiolaeth aml-asiantaeth mewn Cyfarfodydd Cynllunio ar y Cyd.

Atodiad 1

Pryderu am blentyn?

Os ydych yn gwybod am blentyn sydd mewn perygl o gael ei gam-drin neu'n cael ei gam-drin, mae'n bwysig iawn eich bod yn rhoi gwybod i'r cyngor neu'r heddlu.

Os yw'r unigolyn mewn perygl uniongyrchol, ffoniwch yr Heddlu ar unwaith ar 999. Os nad, ffoniwch y Gwasanaethau Cymdeithasol cyn gynted â phosibl i rannu eich pryderon.

Ynys Môn

01248 725 888

01248 353 551 (y tu allan i oriau)

Gwynedd

01758 704 455

01248 353 551 (y tu allan i oriau)

Conwy

Gwasanaethau Cymdeithasol: 0300 456 1111

Y tu allan i oriau: 01492 515777

Sir Ddinbych

01824 712200: Dydd Llun i ddydd Gwener 9am – 5pm

0345 053 3116: Gyda'r Nos a Phenwythnosau

Sir y Fflint

01352 701 000

0345 053 3116 (y tu allan i oriau)

Wrecsam

01978 292 039

0345 053 3116 (y tu allan i oriau)

Atodiad 2

Cefnogi Penderfyniad: Rhieni mewn Argyfwng

Cefnogi Penderfyniad ar gyfer Ymarferwyr Iechyd Meddwl/ Camddefnyddio Sylweddau: Diogelu Plant Rhine â Salwch Meddwl Difrifol neu sy'n Camddefnyddio Sylweddau - Asesiad

A yw'r defnyddiwr gwasanaeth yn bodloni'r gwiliadwriaeth a'r meini prawf arferol a ddisgrifiwyd yn y protocol hwn?

YDI

Yn ystod yr asesiad, ystyriwch y canlynol:

- Pwy sy'n rhan o'r teulu? Bydd angen i chi gynnwys oedran, enwau cyffredinol a llawn unrhyw blant sy'n ddibynnol, yn cynnwys babanod heb eu geni
- Oes gan unrhyw un o'r plant anghenion arbennig?
- Oes gan y defnyddiwr gwasanaeth iechyd meddwl oedolion gyfrifoldeb rhiant?
- A yw un o'r rhieni yn camddefnyddio alcohol neu unrhyw gyffuriau anghyfreithlon, cyffuriau dros y cownter neu gyffuriau ar bresgripsiwn?
- Pa symptomau ac ymddygiadau mae'r oedolyn yn ei ddangos a beth efallai yw effaith hyn ar y plentyn (plant)?
- Pa oedolion eraill sy'n rhan o'r rhianta?
- A yw'r defnyddiwr gwasanaeth yn feichiog?
- A yw'r teulu yn hysbys i'r Gwasanaethau Teulu (Gwasanaethau Cymdeithasol) neu CAMHS?
- A oes unrhyw bryderon blaenorol neu bresennol am y teulu?
- Oes gan y defnyddiwr gwasanaeth y mewnwelediad a'r parodrwydd i dderbyn cefnogaeth neu wasanaethau?
- Trafodwch gyda'r defnyddiwr

NAC YDI

Mae gwiliadwriaeth a chyfrifoldebau arferol yn berthnasol

Cefnogi Penderfyniad ar gyfer Ymarferwyr Iechyd Meddwl/ Camddefnyddio Sylweddau: Diogelu Plant Rhine â Salwch Meddwl Difrifol neu sy'n Camddefnyddio Sylweddau - Aseiad

gwasanaeth pa gefnogaeth sydd ar gael iddo ar gyfer ei rôl fel rhiant gan ei deulu, ffrindiau a gwasanaethau eraill e.e. ymwelydd iechyd, CAMHS, Gwasanaethau Teulu, Gwasanaeth Iechyd Meddwl i Rieni.

- Trafodwch gyda'r defnyddiwr gwasanaeth y manteision o wahodd staff allweddol o wasanaethau eraill i gyfarfodydd y Dull Rhaglen Gofal e.e. CAMHS, Gwasanaeth Iechyd Meddwl i Rieni, Ymwelwyr Iechyd, Gwasanaethau Teulu. Trafodwch gyda'r defnyddiwr gwasanaeth y syniad o sefydlu cyswllt neu gyfathrebu gyda'r gweithwyr proffesiynol uchod y tu allan i broses y Dull Rhaglen Gofal.
- Unrhyw beth am ymwelwyr yn dod i mewn i'r tŷ (o ran camfanteisio)
-

Oes gennych chi unrhyw bryderon am y plant?

NAG OES

Nid oes gennyf unrhyw bryderon am les neu ddiogelwch y plentyn (plant) (yn cynnwys unrhyw fabanod heb eu geni)

- (1) Gwnewch gofnod o'r holl aseidiadau a phenderfyniadau a wnaed
- (2) Cofiwch gynnwys materion rhieni yn y cynllun gofal yn ystod pob adolygiad

OES

Mae gennyf mân bryderon am y plentyn (plant) (yn cynnwys unrhyw blant heb eu geni) a all gael eu rhannu, neu beidio, gyda'r defnyddiwr gwasanaeth

- (1) Trafodwch eich pryderon gydag uwch gydweithiwr neu eich rheolwr llinell a chytunwch ar gynllun cyn gynted â phosibl.
- (2) Yn anffurfiol, trafodwch eich pryderon gyda Meddyg Penodol y Bwrdd Iechyd neu'r Nyrs Glinigol Arbenigol Diogelu Plant i benderfynu os yw atgyfeiriad yn cael ei

OES

Mae gennyf bryderon mawr am les a diogelwch y plentyn (plant) (yn cynnwys unrhyw fabanod heb eu geni)

- (1) Trafodwch y mater gyda eich rheolwr neu oruchwyliwr ar unwaith
- (2) Gofynnwch am gyngor gan Feddyg Benodol y Bwrdd Iechyd neu'r Nyrs Arbenigol Diogelu Plant os nad ydych yn siŵr beth i'w wneud
- (3) Gwnewch atgyfeiriad at yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol fel 'Plentyn sydd angen ei Amddiffyn'

**Cefnogi Penderfyniad ar gyfer Ymarferwyr Iechyd Meddwl/ Camddefnyddio
Sylweddau: Diogelu Plant Rhine â Salwch Meddwl Difrifol neu sy'n
Camddefnyddio Sylweddau -
Asesiad**

nodi a pha mor ar frys
ydyw.

(3) Os bo'n briodol,
trafodwch eto gyda'r
defnyddiwr
gwasanaeth a
chynigwch y
gefnoogaeth eto e.e.
Gwasanaethau
Iechyd Meddwl i
Rieni.

(4) Yn y rhan fwyaf o
achosion, dylai'r
defnyddiwr gwasanaeth
gael gwybod am yr
atgyfeiriad hyd yn oed os
yw wedi cael ei wneud
heb ei ganiatâd, oni bai
bod gwneud hynny yn
rhoi'r plentyn (plant)
mewn mwy o berygl.

Atodiad 3

Cefnogi Penderfyniad ar gyfer Ymarferwyr Iechyd Meddwl/ Camddefnyddio Sylweddau: Diogelu Plant Rhieni â Salwch Meddwl Difrifol neu sy'n Camddefnyddio Sylweddau Rhieni mewn Argyfwng

A yw'r defnyddiwr gwasanaeth yn cael ei dderbyn i'r ysbyty?

YDI

- Os yw'r rhiant yn gorfod mynd i'r ysbyty ac nad oes oedolyn arall gartref, efallai bydd angen i'r rhiant wneud trefniadau i ddod o hyd i ofal arall addas gan ei deulu/ffrindiau. Os nad oes gofal arall addas ar gael, bydd angen gwneud atgyfeiriad i'r gwasanaeth Gofal Cymdeithasol Plant.
- Ystyriwch sut ellir lleihau'r effaith ar y plentyn (plant) e.e. cytuno ar sut ellir cynnal cyswllt, pa gefnogaeth a gwybodaeth sydd ei angen ar y gofalwr a'r plant eraill; pwy fydd yn egluro'r derbyniad i'r ysbyty i'r plant a sut fydd hynny'n cael ei wneud.
- Trafodwch y mater gyda'r Gwasanaethau Teulu a'r Ymwelydd Iechyd cyn gynted â phosibl unwaith y mae'r angen i dderbyn y rhiant i'r ysbyty wedi'i nodi.
- Gwnewch yn siŵr fod gwybodaeth ysgrifenedig am y plant a'r trefniadau ar gyfer eu gofal yn cael ei basio ymlaen i staff y ward a bod cyfathrebu parhaus rhwng yr holl weithwyr proffesiynol a'r gwasanaethau sy'n rhan.
- Cyfeiriwch at bolisi'r Bwrdd Iechyd ar gyfer plant sy'n ymweld â manau cleifion mewnol, os yw'n berthnasol.
- Fel rhan o'r trefniadau rhyddhau a'r Cynllun Gofal a Thriniaeth, gwnewch yn siŵr fod cymorth ar gyfer y rôl rhianta yn cael ei gynnwys a bod diogelwch y plentyn

NAC YDI

- Os yw'r plentyn yn aros adref, mae'n rhaid cofio bod lles y plentyn yn hollbwysig. Rhaid rhoi ystyriaeth i gynnwys gwasanaethau gofal plant arbenigol os oes gennych bryderon am les y plentyn.
- Gwnewch yn siŵr bod yr holl weithwyr proffesiynol a gwasanaethau sy'n rhan yn cyfathrebu'n barhaus.
- Fel rhan o gynllunio trefniadau rhyddhau, gwnewch yn siŵr fod cymorth ar gyfer y rôl rhianta yn cael ei gynnwys.
- Dylai diogelwch a lles y plentyn gael ei adolygu'n barhaus.

Cefnogi Penderfyniad ar gyfer Ymarferwyr Iechyd Meddwl/ Camddefnyddio Sylweddau: Diogelu Plant Rhieni â Salwch Meddwl Difrifol neu sy'n Camddefnyddio Sylweddau Rhieni mewn Argyfwng

yn cael ei ystyried.

- Gwnewch yn siŵr bod y Cynllun Gofal a Thriniaeth yn cynnwys Cynllun Gofal i blant yn yr adran 'Cynllunio mewn Argyfwng a Chynlluniau Wrth Gefn'

DS Fel arfer bydd plant y mae gan eu rhieni broblemau iechyd meddwl neu ddibyniaeth difrifol yn 'blant sydd angen gofal a chefnogaeth' drostynt eu hunain.

Fel rhan o asesu oedolyn â phroblemau iechyd meddwl, mae angen i ymarferwyr ystyried sut mae cyflwyniad y defnyddiwr gwasanaeth yn effeithio ar ei blant neu ar y plant hynny y mae ganddo gyswllt rheolaidd â nhw.

Ym mhob achos lle mae gwrthdaro rhwng lles y plentyn a hawliau'r rhiant neu'r gofalwr, mae lles y plentyn yn hollbwysig ac yn cael blaenoriaeth.